**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Cynigion Cyllideb Comisiwn y Cynulliad

## Papur Briffio Ategol

2010-11

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Cynigion Cyllideb Comisiwn y Cynulliad

Papur Briffio Ategol

2010-11

# Cynigion Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2010-11

Cynnwys


| | Tud | Para |
|---|---|---|
| Cyflwyniad | 1 | 1 |
| Trosolwg o'r gyllideb – y cyd-destun | 1 | 3 |
| Cymharu 2009-10 â 2010-11 | 3 | 9 |
| Gostyngiadau yn y gyllideb | 4 | 11 |
| Cynnydd yn y gyllideb | 5 | 12 |
| Cynnal a chadw safonau | 6 | 17 |
| Fframwaith Rheoli Perfformiad | 8 | 25 |
| Gweithgareddau yn y gyllideb sydd wedi'u lleihau neu sydd wedi dod i ben | 9 | 26 |
| Mesurau effeithlonrwydd ac arbedion na chafodd eu cynnwys yn y gyllideb | 10 | 27 |
| Mesurau effeithlonrwydd ac arbedion | 10 | 28 |
| Newidiadau yn y lefelau staffio | 10 | 30 |
| Prosiectau a thaliadau cyfalaf | 11 | 32 |
| Perfformiad Cyllidebau 2008-09 a 2009-10 | 11 | 34 |
| Gwybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid | 11 | 35 |

| | |
|---|---|
| Cynigion gwariant newydd | Atodiad 1 |
| Manylion y cyllidebau – gwariant gwirioneddol 2008-09, cyllideb 2009-10, cyllideb 2010-11 | Atodiad 2 |
| Manylion y costau gweinyddol eraill a'r costau adeiladau a chyfleusterau | Atodiad 3 |
| Cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad | Atodiad 4 |
| Dashfwrdd Perfformiad Allweddol | Amgaeedig |

# Cynigion Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2010-11

## Cyflwyniad

1. Crëwyd Comisiwn Cynulliad Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau bod eiddo, staff a gwasanaethau yn cael eu darparu ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i ddiben yw gwneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

2. Defnyddir y gyllideb i dalu costau rhedeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n cynnwys cyflog a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a deiliaid swyddi; cyflogau staff y Cynulliad - timau clercio'r pwyllgorau, ymchwilwyr, staff sy'n cynorthwyo'r prosesau deddfu, staff y gwasanaeth cyfieithu a chofnodi seneddol, cynghorwyr cyfreithiol, staff y gwasanaethau i ymwelwyr, staff allgymorth, a'r staff sy'n darparu gwasanaethau cymorth gweithredol fel diogelwch, adeiladau, Adnoddau Dynol, cyllid a TGCh; a chostau nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau a ddefnyddir i redeg y Cynulliad o ddydd i ddydd.

## Trosolwg ar y gyllideb – y cyd-destun

3. Mae'r cynigion ar gyfer Cyllideb 2010-11, a osodwyd ar 22 Medi, yn cynrychioli cyllideb sy'n adlewyrchu ein strategaeth o reolaeth ariannol gadarn, gyson a gwella mesurau effeithlonrwydd lle bo hynny'n bosibl.

4. Ym mis Mehefin eleni, trafododd y Comisiwn effeithiau ariannol a chanlyniadau amrywiaeth o gynigion gwasanaeth i'w cynnwys yn y Gyllideb, a ddangosodd bod angen cyllideb o £48.994 miliwn, sef cynnydd o 2.6%. Y diben oedd cyflwyno Strategaeth y Gyllideb a chynigion cyllideb sydd:

    - wedi ein galluogi i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol a chyflenwi gwasanaethau effeithiol i'r Cynulliad ac i Aelodau'r Cynulliad;
    - wedi ein galluogi i gyflawni nodau strategol y Comisiwn;
    - yn adlewyrchu'n llwyr yr hinsawdd economaidd anodd;
    - yn nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwario, yn enwedig y rheiny a fyddai'n sicrhau mesurau effeithlonrwydd a gwelliannau i'r gwasanaethau yn y tymor hwy;
    - yn cynnwys opsiynau ar gyfer lleihau costau (a'r rheiny na ellir eu hystyried);
    - yn gosod terfyn derbyniol ar ganran cynnydd y gyllideb; ac
    - yn gallu gwrthsefyll gwaith craffu cadarn.

5. Roedd y Comisiwn yn benderfynol o wneud pob dim o fewn ei allu i gyfyng ar y cynnydd yn y gyllideb ar gyfer 2010-11, heb beryglu ei wasanaethau hanfodol a'i safonau. Cytunodd y Comisiynwyr fod yn rhaid i'r gyllideb ddangos dull cadarn o fynd ati i sicrhau bod gwasanaeth effeithiol yn cael ei gyflenwi, bod unrhyw fuddsoddiad yn cyflawni nodau strategol y Comisiwn a bod arbedion a mesurau effeithlonrwydd, sy'n adlewyrchu cyfyngiadau'r sefyllfa economaidd, yn cael eu cyflawni.

6. Mae'r Comisiwn hefyd yn cymeradwyo'r blaenoriaethau strategol a ganlyn ar gyfer strategaeth y gyllideb, a fydd yn cefnogi ein nodau strategol ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad:

    - sicrhau bod y Comisiwn yn parhau i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, drwy gynnal y safonau a'r gwasanaethau ar gyfer y Cynulliad a'i Aelodau;

    - darparu rhwydwaith unedig a chyflenwi rhaglen newid busnes i sicrhau mesurau effeithlonrwydd a gwelliannau i'r gwasanaethau yn y tymor hwy – buddsoddi yn awr er mwyn arbed arian yn y dyfodol;

    - bodloni ymrwymiadau ystad y Cynulliad, fel sefydlu cyfleuster newydd i ymwelwyr yn y Pierhead a lleihau effaith ystâd y Cynulliad o ran allyriadau carbon;

    - rheoli canlyniad yr adolygiad annibynnol ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad;

    - adolygu cyflog ac amodau staff y Cynulliad;

    - paratoi ar gyfer yr etholiad nesaf a'r Pedwerydd Cynulliad, gan ystyried costau'r newidiadau i aelodaeth y Cynulliad.

7. Mae'r Comisiwn yn cynnig cynnydd o 2.6% yn y gyllideb ar gyfer 2010-11, gan osod cyllideb adnoddau o £48.973 miliwn. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn ymwybodol o'r amgylchiadau economaidd presennol a'r pwysau oherwydd hynny ar y sector cyhoeddus a phobl yng Nghymru. Ein huchelgais oedd gosod cyllideb dynnach hyd yn oed, ond ni allwn fod mewn sefyllfa lle na allwn gyllido'r gwasanaethau y mae gofyn i ni eu darparu i'r Cynulliad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rydym yn ymrwymo i reoli'r adnoddau hyn mor ofalus â phosibl, gyda'r bwriad o wneud arbedion effeithlonrwydd ac ariannol yn ystod y flwyddyn, a chyda'r amcan cadarn y bydd y swm a wariwn yn llawer is na'r hyn a amcangyfrifwyd yn y gyllideb. Mae'r paragraffau a ganlyn yn disgrifio'r rhesymeg ar gyfer y gyllideb hon.

8. Gosodwyd y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2010-11 gerbron y Cynulliad ar 14 Hydref 2009, yn dilyn gwaith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft, a osodwyd ar 22 Medi.

**Cymharu 2009-10 â 2010-11**

9. Mae Tabl 1 isod yn rhoi amlinelliad bras o'r modd y cyfrifwyd y gyllideb. Mae Tablau 2 a 3 yn rhoi rhagor o wybodaeth fanwl. Cyflawnwyd hyn yn erbyn y cynnydd gwirioneddol a'r cynnydd a ragwelir yng ngweithgaredd y pwyllgorau ac mewn deddfwriaeth fel yr amlinellir ym mharagraffau 12 i 13 o ddogfen Cynigion y Gyllideb.

Tabl 1

| | |
|---|---|
| **Man cychwyn – cyllideb 2009-10** | **£m**<br>**47.751** |
| **Dileu gweithgareddau sydd wedi lleihau/dod i ben**<br>Rydym yn gwneud gostyngiadau lle mae gweithgaredd wedi ei leihau neu nid oes ei angen bellach ar sail egwyddorion cyllidebu ar sail sero yn erbyn llinellau gwariant sydd â gwariant sylweddol (gweler para 25) | 1.606 |
| **Dileu mesurau effeithlonrwydd/arbedion a nodwyd**<br>Rydym yn gwneud gostyngiadau i adlewyrchu'r prosiectau y mae disgwyl iddynt gael eu cwblhau yn ystod 2009-10 neu brosiectau yn y dyfodol nad ydynt yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth ar hyn o bryd (gweler para 26) | 1.008 |
| **Y Gyllideb cyn cynnwys gwariant newydd ac addasiadau cost** | **45.137** |
| **Ychwanegu codiadau cyflog cynyddrannol:**<br>Rydym yn caniatáu ar gyfer codiadau blynyddol dan gontract yng nghyflog staff y Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad | 0.902 |
| **Ychwanegu cynlluniau gwariant newydd arfaethedig:**<br>Rydym yn ychwanegu cost cynlluniau newydd sydd wedi'u halinio â Nodau Strategol y Cynulliad, fel yr eglurir yn Atodiad 2 o'r ddogfen ar y Gyllideb (gweler Atodiad 1): | 2,066 |
| Taliadau heb fod yn rhai ariannol – taliad dibrisiant uwch | 0.868 |
| **Y Gyllideb ar gyfer 2010-11:** | **48.973** |

10. Felly, mae cymharu'r £48.973 miliwn ar gyfer 2010-11 gyda'r £47.751 miliwn ar gyfer 2009-10 yn rhoi cynnydd o 2.6% yn y gyllideb. Fel cymharydd, mae hyn yn is na'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 o £49.058 miliwn a amlinellwyd yng nghynigion cyllideb y llynedd.

**Gostyngiadau yn y Gyllideb**

11. Gofynnodd y Comisiwn i gynnydd mewn cyllidebau gael ei gyfyngu, heb beryglu'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt. Rhestrir y meysydd lle cafwyd y gostyngiadau cost mwyaf sylweddol, a gafodd eu cynnwys yn y gyllideb, isod:

- roedd y gyllideb ddangosol ar gyfer 2010-11 yn cynnwys gwaith TGCh angenrheidiol. Bydd y prosiect i uno'r rhwydwaith (daw'r arian ar ei gyfer o'r gyllideb atodol yn y flwyddyn bresennol) yn arbed oddeutu £0.7m yn 2010-11. Argymhellir y dylid adnewyddu'r cyfarpar a'r feddalwedd yn y Senedd, i leihau'r risg y gallai fethu ac i wella sut mae'n gweithio. Bydd gwneud y gwaith a gynlluniwyd mewn camau am gost a amcangyfrifwyd o dros £1 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf yn cyfyngu ar yr effaith ariannol ym mhob blwyddyn i £0.5 miliwn (1.0%) yn 2010-11;

- gwnaethom ymrwymiad i'r Pwyllgor Cyllid y byddwn yn adolygu pob swydd staff y Cynulliad sy'n dod yn wag. Byddwn yn parhau i reoli ein strwythur staffio i sicrhau arbedion mewn perthynas â swyddi gwag o 1% o'r gyllideb cyflogau. Mae hyn wedi cael ei gynnwys yn y gyllideb, gan ei leihau £0.15 miliwn (0.3%);

- adolygwyd y cyllidebau yng ngoleuni patrymau gwario diweddar a disgwyliadau am y dyfodol. Cefnogir hyn gan bwyslais cynyddol ar reoli costau pan fydd gofynion newydd yn ymddangos. Lleihawyd y gwariant a'r gweithgaredd a gynlluniwyd mewn meysydd cymorth gweithredol lle y gellir rheoli hynny, fel mewn perthynas â recriwtio (i adlewyrchu'r gostyngiad mewn trosiant), datblygu meddalwedd ar gyfer gwasanaethau a osodir ar gontract, a rhai prosiectau adeiladu neu brosiectau'r ystad. Cafwyd arbedion sylweddol o £0.3m (0.6%) ym maes cyfathrebu i adlewyrchu'r ffaith bod prosiect y Pierhead wedi'i gwblhau a bod sianelau cyfathrebu wedi'u rhesymoli;

- rhestrir manylion y gweithgareddau i'w lleihau/i ddod i ben a'r mesurau effeithlonrwydd ac arbedion a gyflawnwyd ym mharagraffau 25 a 26. Dyma rai enghreifftiau:

- prosiectau TGCh am gost o £0.685 a gaiff eu cwblhau yn ystod 2009-10;
- gostyngiad o £0.412 miliwn ar draws nifer o wasanaethau i adlewyrchu galw, fel arbedion o £0.177 miliwn gan yr adran Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau yn dilyn adolygiad o'r gweithgareddau;
- mae'r gostyngiad o £0.571 miliwn yng nghyllideb Cyflog a Lwfansau'r Aelodau yn adlewyrchu'r gwariant posibl drwy ddefnyddio data hanesyddol.

**Cynnydd yn y gyllideb**

12. Mae rheoli'r broses o adolygu pob swydd sy'n dod yn wag yn rhoi'r cyfle i ni ailystyried sut y mae adnoddau yn cael eu strwythuro, ac mae hyn wedi golygu bod rhai swyddi a graddau wedi cael eu rhesymoli, yn enwedig mewn meysydd sy'n cefnogi busnes y Cynulliad yn uniongyrchol. Er enghraifft, rydym wedi cael gwared ar dair swydd gradd uwch yng Ngwasanaeth y Pwyllgorau a Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth er mwyn gallu ariannu pedair swydd sydd un radd yn is i gynyddu'r capasiti ar y lefel gywir. O ganlyniad i'r rhaglen newid busnes a'r gofyniad i gryfhau'r cymorth ariannol a llywodraethu, mae angen i ni gynyddu'r adnoddau mewn rhai meysydd. Mae disgwyliad clir y bydd hyn yn sicrhau mesurau effeithlonrwydd a gwasanaethau gwell, yn enwedig drwy'r rhaglen newid, a'i chronfa o £0.25 miliwn i'w fuddsoddi i arbed arian. (cynnydd o £0.55 miliwn, 1.1%).

13. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y cynnydd cynyddrannol drwy'r raddfa gyflog ar gyfer staff cymorth yr Aelodau a staff y Cynulliad wedi ei chynnwys yn y gyllideb. Nid yw'r gyllideb yn cynnwys darpariaeth benodol i ariannu setliadau cyflog na chwyddiant cyflogau ar gyfer y grwpiau hyn, nac ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. O ganlyniad, bydd unrhyw godiadau cyflog y cytunir arnynt yn cael eu hariannu o'r cyllid wrth gefn neu o arbedion a nodir yn ystod y flwyddyn.

14. Mae angen rhagor o adnoddau i wella ymgysylltiad â'r cyhoedd drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth o Etholiad 2011 a'r gwelliannau parhaus a wnaed i'r wybodaeth gyhoeddus yn y Senedd. (Cynnydd o £0.1 miliwn, 0.2%).

15. Mae'r cynnydd na ellir ei osgoi mewn sawl cyllideb wedi cael ei gynnwys, fel y cynnydd a amcangyfrifwyd yng nghostau TGCh o dan Gontract Siemens, a'r cynnydd mewn premiymau yswiriant, mewn gwaith llawrydd neu waith cyfieithu a wneir yn allanol o ganlyniad i'r cynnydd yn llwyth

gwaith y pwyllgorau, ac mewn costau cynnal adeiladau a chyfleusterau. (cynnydd o £0.15 miliwn, 0.3%).

16. Er gwaetha'r ffaith bod y Cynulliad yn defnyddio llai o ynni o ganlyniad i ymdrech y Comisiwn i leihau ein heffaith o ran allyriadau carbon, mae disgwyl i gostau ynni barhau i gynyddu. Rhwng 2007-08 a 2008-09, cafwyd gostyngiad o 3% yn ein defnydd o ynni, ond bu cynnydd o 28% yn y gwariant. Byddwn yn parhau i weithio i ostwng faint o ynni a ddefnyddiwn fel rhan o'n nod cynaliadwyedd, ond mae'n ddoeth cynnwys arian yn y gyllideb ar gyfer cynnydd yn y gost. (£0.1 miliwn, 0.2%).

**Cynnal a chadw safonau**

17. Mae'r gyllideb, fel y'i gosodwyd, yn cynnwys lefel ddigonol o adnoddau i'n galluogi i fodloni ein hamcanion allweddol:
    - Adeiladau ac adnoddau ar gyfer y Cynulliad fel y gall wneud ei waith;
    - 376 aelod o staff yn y Comisiwn i gefnogi'r gwaith hwn;
    - Darpariaeth TGCh – caledwedd, meddalwedd, darlledu a'r wefan;
    - Gweithgareddau allanol i ymgysylltu â phobl ledled Cymru.

18. Byddwn yn gwneud pob dim y gallwn ei wneud i reoli'r pwysau ychwanegol drwy nodi arbedion a mesurau effeithlonrwydd pellach, drwy reoli costau, a drwy ddefnyddio'r gronfa wrth gefn, fel sydd angen.

19. Pan drafododd y Pwyllgor Cyllid gynigion y Comisiwn ar gyfer cyllideb 2009-10, cwestiynwyd ein gallu i fwrw ati gyda'r gyllideb arfaethedig heb i ansawdd y gwasanaethau i'r Aelodau ddirywio a heb i'r hyn a ddisgwylir gan ein staff fod yn afresymol. Mynegodd y Pwyllgor bryder y gallai'r targed ar gyfer yr arbedion effeithlonrwydd yn y gyllideb gael effaith niweidiol ar ein gwaith.

20. Diben ein hymgais i wella effeithlonrwydd yw cefnogi'r gwasanaethau a ddarperir, yn hytrach na'u tanseilio hynny. Nid ydym yn bwriadu gwneud llai. Yn hytrach, bwriadwn wella'r hyn y gallwn ei ddarparu gyda'r adnoddau sydd ar gael, gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli costau, effeithlonrwydd ac ansawdd gwasanaethau. Mae gennym nifer o brosesau allweddol a dulliau o gyfathrebu er mwyn rheoli'r risg o fethu a chyrraedd y safonau disgwyliedig, fel dulliau o fonitro dangosyddion perfformiad allweddol, adroddiadau rheoli adnoddau misol ac ymatebion o arolygon bodlonrwydd ymhlith yr Aelodau. Bydd y Comisiynwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cadw golwg agos i sicrhau nad yw safonau'n dirywio.

21. Mae ansicrwydd o'n blaenau. Mae'n anochel y bydd anghenion newydd yn dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, ac ni allwn broffwydo'n gywir ar hyn o bryd beth fydd natur a chost y rheiny. Bydd busnes y Cynulliad yn parhau i ddatblygu a newid. Bydd angen ystyried unrhyw effaith a ddaw yn sgil argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol. Mae'r cytundeb cyflogau presennol ar gyfer staff y Cynulliad yn dod i ben ym mis Mawrth 2010 ac rydym yn y broses o baratoi Strategaeth Cyflogau a Thaliadau ar gyfer y cyfnod ar ôl hynny. Mae'r rhagamcanion drwy'r mynegrifau amrywiol ar gyfer chwyddiant ac enillion cyfartalog yn ansicr a gallant newid, a bydd setliadau cyflog Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth wedi eu cysylltu iddynt o fis Ebrill 2010. Bydd goblygiadau gweithrediadol yn deillio o sefydlu'r cyfleuster newydd i ymwelwyr yn y Pierhead. Mae'n rhaid i ni gynllunio ar gyfer yr elfennau hyn o ansicrwydd cystal ag y bo modd, a bod yn barod i'w rheoli wrth iddynt ddod i'r amlwg.

22. Yn sgil yr elfennau hyn o ansicrwydd, mae'r gyllideb yn cynnwys cyllideb wrth gefn uwch o £1.2 miliwn (2.5% o'r gyllideb); cynnydd o £0.2 miliwn (0.5%) ar gyllidebau blaenorol. At hynny, byddwn yn ceisio ymateb i unrhyw anghenion newydd drwy ddefnyddio'r arbedion a geir yn y cyllidebau presennol.

23. Diben sylfaenol Cronfa Wrth Gefn y Comisiwn yw rhoi'r hyblygrwydd i'r Comisiwn wneud ei benderfyniadau'n effeithiol heb orfod gwneud cais am gyllideb atodol bob tro y mae penderfyniad yn gofyn am wariant ychwanegol. O fewn hyn, mae tri phwrpas:
    - Talu am wariant annisgwyl na ellir ei ragweld – er enghraifft, os oes gennym broblem brys y mae angen gwario arian ychwanegol arno na chafodd ei gynnwys yn y gyllideb.
    - Talu am gostau nad oedd yn bosibl eu hamcangyfrif yn gywir pan baratowyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn, ond yr aseswyd eu bod yn fforddiadwy o fewn cyfyngiadau'r gronfa wrth gefn. Fodd bynnag, lle mae'r costau hyn yn sylweddol, bydd gennym lwybr amgen a dderbyniwyd i wneud cais am gyllideb atodol, er enghraifft yn dilyn etholiadau'r Cynulliad;
    - Rhoi hyblygrwydd – fel y gallwn fanteisio ar y cyfleoedd na ragwelwyd – i brynu'r bws cyfathrebu, er enghraifft.

24. Mewn gwirionedd, clustnodwyd llawer o'r gyllideb wrth gefn eisoes ar gyfer anghenion hysbys fel y codiad yng nghyflog Aelodau'r Cynulliad; y codiad yng nghyflog staff cymorth; y codiad yng nghyflog staff y Cynulliad; disgwylir i'r taliad diwethaf ar gyfer y prosiect i uno'r rhwydwaith gael ei wneud ym mlwyddyn ariannol 2010-11; a'r costau sy'n

ymwneud â chwblhau prosiect y Pierhead. Gan gyllidebu ar sail sero a phennu targedau ar gyfer arbedion, byddwn yn ceisio chwilio am ragor o gyfleoedd i fod yn effeithlon ac i reoli costau. Er enghraifft, mae'r meysydd rydym yn craffu arnynt lle disgwyliwn wneud arbedion pellach yn cynnwys y meysydd a ganlyn:

***Cynnal a chadw adeiladau:*** Adolygu'r cydbwysedd rhwng gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd a gwaith ymatebol, er mwyn canfod arbedion effeithlonrwydd posibl - er enghraifft, cynnal a chadw sy'n seiliedig ar risg neu gyflwr.

***Adnewyddu'r contract llungopïo:*** Adolygu'r fanyleb a'r cyflenwyr a'r galw parhaol am gopïwyr llawr, yn fwyaf tebygol ar sail buddsoddi i arbed.

***Y contract glanhau:*** Mae'r broses ail-dendro'n mynd rhagddi ar hyn o bryd, a gofynnir i gontractwyr posibl ddarparu cynigion gyda chostau is.

***Arlwyo:*** Adolygu'r fanyleb bresennol.

***Adennill costau:*** Ystyried yr incwm posibl y gellid ei greu drwy godi ac adennill costau

***Contract yr heddlu:*** Adolygu'r contract a sicrhau bod y cytundeb lefel gwasanaeth yn rhoi'r gwerth gorau am arian ac yn addas i'w ddiben.

***Oriau agor:*** Edrych ar effaith cwtogi oriau agor yr ystâd pan fydd y galw o du'r cyhoedd yn isel.

## Fframwaith rheoli perfformiad

25. Mae ein fframwaith ar gyfer rheoli perfformiad corfforaethol y sefydliad yn cynnwys:
    - Y system rheolaeth fewnol - yr holl bolisïau, gweithdrefnau ac arferion sy'n ymwneud â llywodraethu, risg a rheoli adnoddau;
    - Amcanion strategol a gwerthoedd sefydliadol y cytunwyd arnynt sy'n rhoi canolbwynt i gynlluniau busnes mewn gwasanaeth a Rheoli Perfformiad ac Adolygu Datblygiad unigolion;
    - Adroddiad rheolaeth ariannol misol ar berfformiad yn erbyn y gyllideb;
    - Dashfwrdd adnoddau dynol misol ar ddangosyddion perfformiad staffio'r Comisiwn;

- o Dashfwrdd Perfformiad Allweddol misol o ddangosyddion perfformiad allweddol, cerrig milltir allweddol prosiectau; mesurau boddhad a risgiau sylweddol;
- o Adroddiad o gynnydd y Bwrdd Rheoli i gyfarfodydd Comisiwn y Cynulliad;
- o Adolygiad interim blynyddol ac adolygiad diwedd blwyddyn o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol wrth gynorthwyo'r Comisiwn i gyrraedd ei dargedau.

26. **Tabl 2: Gweithgareddau sydd wedi'u lleihau / dod ben yng nghyllideb 2009-10, na chynhwysir yng nghyllideb 2010-11:**

| Disgrifiad | Gwasanaeth | Swm |
|---|---|---|
| Prosiect y Pierhead – costau sefydlu cyfalaf | Cyfathrebu Allanol | £300,000 |
| Prosiect y Gyflogres | Adnoddau Dynol | £75,000 |
| Prosiectau a gwaith adeiladu | Cyfleusterau ac Ystadau | £59,000 |
| Prosiectau TGCh a gwblhawyd yn 2009-10 | TGCh | £685,000 |
| Gwasanaethau meddalwedd TGCh a gwblhawyd yn 2009-10 | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | £75,000 |
| Gostyngiadau ar draws nifer o ddyraniadau cyllideb i adlewyrchu'r galw | Pob gwasanaeth | £412,000 |
| | **Cyfanswm** | **£1,606,000** |

27. **<u>Tabl 3:</u> Mesurau effeithlonrwydd ac arbedion yng nghyllideb 2009-10, a dynnwyd o 2010-11:**

| **Disgrifiad** | **Gwasanaeth** | **Swm** |
|---|---|---|
| Gostyngiadau mewn cyllidebau a aliniwyd i'r galw a ddisgwylir ar sail data hanesyddol | Yr Uned Gorfforaethol | £33,000 |
| | Rheoli Cyfleusterau | £74,000 |
| | Cyflog a Lwfansau Aelodau | £571,000 |
| | Pob gwasanaeth | £130,000 |
| Darpariaeth ar gyfer arbed arian yn sgil swyddi gwag | Pob gwasanaeth | £150,000 |
| Diwygio Cofnod y Trafodion | Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi | £50,000 |
| | **Cyfanswm** | **£1,008,000** |

**Mesurau effeithlonrwydd ac arbedion**

28. Hyd yn hyn yn 2009-10, cafwyd mesurau effeithlonrwydd ac arbedion o £0.373 miliwn, drwy weld gwasanaethau yn nodi lle y gallent wario llai o arian nag a ddisgwyliwyd (£0.250 miliwn) a thrwy brosiectau TGCh lle y gweithredwyd atebion amgen rhatach (£0.123 miliwn).

29. Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull o lunio'r agenda effeithlonrwydd ac rydym yn awyddus yn benodol i gynrychioli arbedion, mesurau effeithlonrwydd a gostyngiadau eraill yn y gyllideb yn gywir ac mewn ffordd sy'n osgoi unrhyw gamddehongliad.

**Newidiadau yn y lefelau staffio**

30. Mae peth o'n gwariant newydd yn ymwneud â'r cynnydd yn y lefelau staffio ers cymeradwyo cyllideb 2009-10. Yn y flwyddyn bresennol, ariennir y rhain drwy gyllideb wrth gefn y Comisiwn, ond o 2010-11 ymlaen, bydd yn rhaid eu cynnwys yn y gyllideb sylfaenol. Cyn creu swyddi newydd, bydd yn rhaid cyflwyno achos busnes ar eu cyfer, y mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr neu'r

Cyfarwyddwr perthnasol ei gymeradwyo. Bydd gennym oddeutu 376 o swyddi wedi eu cyllido ym mis Ebrill 2010, o'i gymharu â 370 ym mis Ebrill 2009.

Mae hyn yn cynnwys:

- Pennaeth y Rhaglen Newid (Uned Gorfforaethol)
- Pennaeth Archwiliadau Mewnol (Uned Gorfforaethol)
- Dau ymchwilydd (Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau)
- Cymorth tîm i'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi
- Rheolwr Taliadau (Cyllid)

**Cynigion Gwariant Newydd**

31. Gweler Atodiad 1 i gael manylion y cynigion gwariant newydd ar gyfer 2010-11.

**Prosiectau a thaliadau cyfalaf**

32. Bydd ein cyllideb gyfalaf yn newid bob blwyddyn yn unol â lefel y buddsoddiad cyfalaf y credwn sy'n angenrheidiol. Bydd y Pwyllgor yn nodi mai £0.775m fydd hyn ar gyfer 2010-11. Rydym yn trafod hyn gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth y Cynulliad sy'n ystyried materion ehangach o ran sut y mae'r Llywodraeth yn rheoli buddsoddi cyfalaf.

33. Bydd gwariant cyfalaf yn 2010-11 a 2011-12 yn ymwneud â'r rhaglen strategol TGCh i ddarparu cyfarpar newydd, er enghraifft: gosod caledwedd a meddalwedd newydd yn y Senedd; a rhoi cyfarpar TGCh newydd i Aelodau ar ôl etholiad 2011.

**Perfformiad Cyllidebau 2008-09 a 2009-10**

34. Yr alldro adnoddau net ar gyfer 2008-09 oedd £44.010 miliwn oedd yn erbyn y gyllideb adnoddau net o £46.181 miliwn, sef tanwariant o 4.7%. Roedd hyn yn cynnwys tanwariant o 1.8% mewn perthynas â Chyflogau a Lwfansau Aelodau, 1.2% mewn perthynas â gwasanaethau'r Comisiwn a 1.8% yn erbyn dibrisiant a thaliadau llog tybiannol. Rydym wedi tynhau'r trefniadau a'r dyraniadau cyllideb yn 2009-10 ac rydym yn rhagweld y bydd yr alldro yn llawer agosach at y gyllideb.

**Gwybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid**

35. Ers i ni gyfarfod â'r Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref 2008, rydym wedi cyhoeddi'r wybodaeth a ganlyn, ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2009:

- cyfiawnhad o benderfyniad y Comisiwn i wneud cais am gyllideb atodol yn 2009-10 i'w alluogi i uno rhwydwaith y Cynulliad;
- copïau o'r papurau a drafodwyd gan Fwrdd Rheoli'r Comisiwn ym mis Gorffennaf 2009. Roedd y rhain yn adolygu alldro'r gyllideb adnoddau ar gyfer 2008-09 a'r perfformiad ariannol yn chwarter cyntaf 2009-10;
- canllawiau a gyflwynwyd i Benaethiaid Gwasanaeth y Comisiwn i wella sut y caiff mesurau effeithlonrwydd eu monitro drwy'r flwyddyn;
- adroddiad ar ddefnyddio ynni a baratowyd mewn ymateb i bryderon y Pwyllgor ynglŷn â'n tybiaethau ar gyfer costau ynni; ac
- adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

**Dadansoddiad pellach o'r Gyllideb**

36. Mae'r rhain yn hunanesboniadol a chânt eu cynnwys er gwybodaeth ac er mwyn rhoi darlun clir o'r modd y caiff y gyllideb arfaethedig ei gwario yn ystod 2010-11.

Mae Atodiad 2 yn cymharu'r gwahanol feysydd gwariant ac incwm ar gyfer costau gwirioneddol 2008-09, y gyllideb ar gyfer 2009-10 a'r cynigion ar gyfer 2010-11

Mae Atodiad 3 yn rhoi dadansoddiad o gostau gweinyddol eraill a chostau adeiladau ar gyfer 2010-11

Mae Atodiad 4 yn rhoi manylion cyflogau Aelodau'r Cynulliad a Deiliaid Swyddi ynghyd â disgrifiad o'r lwfansau sy'n daladwy i Aelodau'r Cynulliad

Atodiad 1

**<u>Cynigion gwariant newydd – y manylion</u>**

Caiff y cynigion gwariant newydd a ganlyn eu cynnwys yn y Gyllideb:

| **Diben** *(Gwasanaeth)* | ***Y prif nod strategol a gefnogir*** | Cyfalaf Refeniw | **Amcan-gyfrif 2010-11 £000** | **Amcan-gyfrif 2011-12 £000** |
|---|---|---|---|---|
| **GWELLA EFFEITHLONRWYDD A DARPARIAETH DRWY FUDDSODDI MEWN SYSTEMAU TG** | | | | |
| Cynllunio ar gyfer newidiadau angenrheidiol i'r system ddarlledu yn y Senedd a Swyddfeydd y Cynulliad, drwy brynu a gosod camerâu newydd yn yr Ystafelloedd Pwyllgora, setiau teledu CRT, monitorau yr ystafell reoli yn y Galerïau a chyfarpar recordio sain symudol. Os na wneir y gwaith, gellid achosi niwed i'r gallu i ddarlledu a / neu ansawdd y darlledu (TGCh) | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Cyfalaf | 200 | |
| Uwchraddio'r feddalwedd Medialon yn y Siambr, gan gynnwys unrhyw newidiadau posibl wedi'r etholiad (i'w rannu dros ddwy flynedd). Mae angen gwneud y gwaith er mwyn gwella'r gwasanaeth i Aelodau (TGCh) | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Cyfalaf | 250 | 250 |
| Prynu a gosod gweinyddwyr, llwybryddion rhwydwaith a switsys ar gyfer y Senedd (i'w rannu dros ddwy flynedd). Mae risg y gallai'r cyfarpar fethu oherwydd ni chefnogir ef bellach (TGCh) | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Cyfalaf | 250 | 250 |
| Prosiect i gynllunio system TGCh newydd ar gyfer Aelodau wedi'r etholiad. Angen cynllunio o flaen llaw ar ei gyfer | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Refeniw | 174 | |

| **Diben** ***(Gwasanaeth)*** | ***Y prif nod strategol a gefnogir*** | Cyfalaf Refeniw | **Amcan-gyfrif 2010-11 £000** | **Amcan-gyfrif 2011-12 £000** |
|---|---|---|---|---|
| Newidiadau o ran TG a darlledu ar gyfer Aelodau wedi'r etholiad. I gynnwys cyfarpar TGCh ar gyfer y 60 Aelod Cynulliad a'u staff cymorth, TGCh yn y Siambr a'r costau o weithredu'r newidiadau – bydd yn dilyn y prosiect cyfarpar newydd yn uniongyrchol | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Cyfalaf/ Refeniw | | 951 |
| Diweddaru'r wefan wedi'r etholiad | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Cyfalaf/ Refeniw | | 1,000 |
| **BUDDSODDI MEWN SYSTEMAU TG** | | | **874** | **2,451** |
| **CRYFHAU GWEITHGAREDDAU SY'N CYSYLLTU Â PHOBL CYMRU** | | | | |
| **Ffocws y Cynulliad** – pwyslais ar hyrwyddo Etholiad y Cynulliad yn 2011. I gynnwys ailwampio cynnwys gwefan y Cynulliad a safleoedd eraill ar-lein, yn ogystal â rhaglen strategaeth y Senedd (*Cyfathrebu Allanol*) | *Hyrwyddo ac ehangu'r ymgysylltiad â datganoli* | Cyfalaf/ Refeniw | 100 | - |
| **CRYFHAU CYSYLLTIADAU** | | | **100** | **-** |
| **CEFNOGI GWAITH Y CYNULLIAD** | | | | |
| Talu costau staff ychwanegol a recriwtwyd yn ystod 2009-10 er mwyn ymateb i'r galw cynyddol mewn meysydd fel cyllid, rheoli'r prosiect i-change ac archwilio mewnol | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Refeniw | 234 | |

| **Diben** ***(Gwasanaeth)*** | ***Y prif nod strategol a gefnogir*** | Cyfalaf Refeniw | **Amcan-gyfrif 2010-11 £000** | **Amcan-gyfrif 2011-12 £000** |
|---|---|---|---|---|
| Talu costau staff ychwanegol a gaiff eu recriwtio yn 2010-11 yng Nghyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad, o ganlyniad uniongyrchol i gynyddu busnes a llwyth gwaith y pwyllgorau | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Refeniw | 86 | |
| Rhaglen rheoli newid – costau cychwynnol | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Refeniw | 250 | |
| Cynnydd hysbys mewn costau sefydlog fel cyfleustodau, cyfraddau, gwasanaethau TG ar gontract ar sail contractau presennol | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Refeniw | 322 | |
| **CEFNOGI GWAITH Y CYNULLIAD** | | | **892** | |
| Taliadau dibrisiant uwch o ganlyniad i wariant cyfalaf yn 2009-10 | *Dangos uniondeb a llywodraethu da* | | 868 | 152 |
| **UNIONDEB A LLYWODRAETHU DA** | | | **868** | **152** |
| Cynyddodd lefel y cyllid wrth gefn i 2.5% o'r gyllideb i gynnwys lefelau chwyddiant ansicr yn y dyfodol | | | **200** | |
| **CYFANSWM COST Y CYNIGION** | | | **2,934** | **2,603** |

**ATODIAD 2**

**Beth mae Cynigion Cyllideb y Cynulliad, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 14 Hydref 2009, yn eu cynnwys? Mae'r hyn a ganlyn yn amlinellu'r costau ac yn cymharu â'r blynyddoedd blaenorol:**

| | **Cyllideb 2010-11** | **Cyllideb 2009-10** | **£000 Gwariant gwirion-eddol 2008-09** |
|---|---|---|---|
| *Gwariant refeniw* | | | |
| Cyflogau a lwfansau Aelodau, cyflogau Deiliaid Swyddi, cyflogau staff yr Aelodau | 13,652 | 14,005 | 12,369 |
| Cyflogau staff, gan gynnwys secondiadau mewnol | 14,338 | 13,871 | 12,193 |
| Costau adnoddau dynol, gan gynnwys recriwtio ac offer iechyd a diogelwch | 151 | 176 | 283 |
| Hyfforddiant corfforaethol a hyfforddiant staff/Aelodau a chostau datblygu | 250 | 250 | 270 |
| Costau teithio a chynhaliaeth y staff | 208 | 230 | 158 |
| Costau TGCh, gan gynnwys y wefan, darlledu, a chostau trwyddedu a chynnal a chadw | 4,008 | 3,978 | 4,017 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau, gan gynnwys ardrethi, trydan, arlwyo, glanhau a chynnal a chadw - *gweler y manylion yn Atodiad 3* | 7,181 | 7,169 | 8,349 |
| Costau cysylltu â'r cyhoedd a chyfathrebu, gan gynnwys gwasanaethau ymwelwyr, allgymorth a digwyddiadau cenedlaethol | 896 | 921 | 548 |
| Costau gweinyddol eraill – *gweler y manylion yn Atodiad 3* | 1,456 | 1,652 | 1,698 |
| Dibrisiant a thaliadau llog tybiannol | 5,068 | 4,200 | 3,972 |
| Cyllideb wrth gefn | 1,200 | 1,000 | - |
| Arbedion costau a mesurau effeithlonrwydd | - | -250 | - |
| **Gwariant refeniw gros** | **48,408** | **47,202** | **43,857** |
| *Incwm refeniw* | | | |
| Y nwyddau a werthwyd yn Siop y Cynulliad | -40 | -40 | -31 |
| Incwm rhent adeiladau | -90 | -90 | -76 |
| Incwm amrywiol | -80 | -30 | - |
| **Incwm refeniw gros** | **-210** | **-160** | **-107** |
| **GWARIANT REFENIW NET** | **48,198** | **47,042** | **43,750** |
| Gwariant cyfalaf – creu asedau sefydlog | 775 | 709 | 260 |
| Incwm cyfalaf – gwaredu asedau sefydlog | - | - | - |
| **GWARIANT CYFALAF NET** | **775** | **709** | **260** |
| **GOFYNIAD ADNODDAU NET** | **48,973** | **47,751** | **44,010** |

**Atodiad 3**

## Dadansoddiad o'r 'Costau Gweinyddol Eraill' a'r 'Costau Adeiladau a Chyfleusterau'

Paratowyd dadansoddiad gwariant/incwm y Gyllideb mewn fformat sy'n caniatáu cymhariaeth well rhwng y gyllideb a gymeradwywyd a'r gwariant a gofnodwyd yn y Cyfrifon Adnoddau ar ddiwedd y flwyddyn. Ceir manylion pellach ynghylch y llinellau cyllideb penodol isod:

| Costau gweinyddol eraill | Cyllideb 2010-11 | Cyllideb 2009-10 | Gwariant gwirioneddol 2008-09 |
|---|---|---|---|
| Post a chludiant | 65 | 69 | 59 |
| Archwilio allanol | 42 | 41 | 88 |
| Archwilio mewnol | 15 | 15 | 14 |
| Offer swyddfa | 41 | 49 | 39 |
| Gwisgoedd a dillad | 21 | 24 | 43 |
| Lletygarwch | 58 | 64 | 47 |
| Yswiriant | 80 | 70 | 62 |
| Costau cyfreithiol | 26 | 36 | 12 |
| Gwasanaethau dwyieithog | 288 | 339 | 347 |
| Rheoli'r gyflogres | 48 | 47 | 92 |
| Gwasanaethau ystadegol | 0 | 1 | 1 |
| Cyhoeddiadau | 117 | 114 | 91 |
| Gwariant amrywiol | 20 | 15 | 158 |
| Gwasanaethau gwybodaeth – electronig | 142 | 143 | 118 |
| Llogi lleoliadau | 17 | 18 | 24 |
| Cynghorwyr arbenigol | 55 | 83 | 23 |
| Treuliau rhyngseneddol | 59 | 58 | 43 |
| Costau bancio | 3 | 3 | 2 |
| Offer swyddfa'r Aelodau | 126 | 126 | 140 |
| Cerbyd y Llywydd | 22 | 9 | 16 |
| Ymgynghori | 94 | 95 | 159 |
| Trwyddedau Arolwg Ordnans | 12 | 13 | 9 |
| Treuliau Swyddfa Brwsel | 13 | 13 | 7 |
| Tanysgrifiadau corfforaethol | 4 | 5 | 3 |
| Mentrau corfforaethol | 18 | 29 | 13 |
| Cynghorwyr annibynnol | 25 | 41 | 60 |
| Cofnodi allanol | 35 | 10 | 7 |
| Cydraddoldeb a mynediad | 10 | 5 | 10 |
| Gwobrau | 0 | 15 | 14 |
| Bws | 0 | 72 | 0 |
| Archifo | 0 | 30 | 0 |
| Costau adleoli | 0 | 0 | -3 |
| | **1,456** | **1,652** | **1,698** |

| Costau adeiladau | Cyllideb 2010-11 | Cyllideb 2009-10 | Gwariant gwirioneddol 2008-09 |
|---|---|---|---|
| Rhentu swyddfeydd | 2,150 | 2,183 | 2,120 |
| Ardrethi | 1,245 | 1,220 | 1,187 |
| Cynnal a chadw | 950 | 980 | 1,201 |
| Dodrefn a chelfi | 102 | 103 | 116 |
| Tanwydd | 15 | 10 | 14 |
| Nwy | 80 | 51 | 87 |
| Trydan | 400 | 359 | 424 |
| Dŵr | 22 | 21 | 20 |
| Glanhau, golchi a gwaredu gwastraff | 305 | 301 | 300 |
| Presenoldeb heddlu diogelwch | 615 | 615 | 568 |
| Defnyddiau traul | 40 | 41 | 30 |
| Arlwyo | 390 | 371 | 383 |
| Rhentu llungopiwyr | 160 | 140 | 135 |
| Glanhau ffenestri | 55 | 62 | 50 |
| Gwaith gwaredu | 2 | 5 | 2 |
| Parcio ceir | 75 | 72 | 130 |
| Meithrinfa | 103 | 103 | 0 |
| Gwaith a phrosiectau | 450 | 409 | 1,569 |
| Ysbwriel | 12 | 123 | 12 |
| Faniau | 10 | 0 | 1 |
| | **7,181** | **7,169** | **8,349** |

**Atodiad 4**

**Cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad**

Cofnodir lefelau'r cyflogau a'r lwfansau ym **Mhenderfyniad y Cynulliad** – caiff hwn ei ddiweddaru'n flynyddol.

Cyflogau Aelodau'r Cynulliad yw:

| | |
|---|---|
| Aelod Cynulliad<br>Mae hwn yn 82.0% o gyflog AS. Caiff ei dalu i holl Aelodau'r Cynulliad. Caiff y cyflogau a ganlyn ar gyfer deiliaid swyddi eu talu yn ychwanegol at gyflog Aelod Cynulliad. | £53,108 |
| Y Llywydd<br>Mae'r swm hwn yn gymharol â graddfeydd Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. | £41,370 |
| Y Dirprwy Lywydd<br>Mae'r swm hwn yn gymharol â graddfa Senedd yr Alban. | £26,022 |
| Y Prif Weinidog<br>Mae'r swm hwn yn gymharol â'r swm a gaiff Gweinidog yng Nghabinet Llywodraeth y DU. | £79,754 |
| Y Dirprwy Brif Weinidog, Gweinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol<br>Mae'r swm hwn yn gymharol â'r swm a gaiff Gweinidog Gwladol. | £41,370 |
| Dirprwy Weinidog<br>Mae'r swm hwn yn gymharol â'r swm a gaiff Is-Weinidog yn Senedd yr Alban. | £26,022 |
| Prif Chwip y Llywodraeth | £26,022 |
| Prif Chwip yr Wrthblaid | £11,543 |
| Comisiynydd y Cynulliad | £11,543 |
| Cadeiryddion y pwyllgorau craffu/y Pwyllgor Archwilio/y Pwyllgor Cyllid | £11,543 |
| Cadeiryddion y pwyllgorau eraill (ac eithrio'r Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Safonau) | £6,039 |
| Arweinydd y Blaid fwyaf heb swyddogaeth weithredol | £41,370 |
| Arweinydd y gwrthbleidiau ac eithrio'r fwyaf | £11,543 |

Mae'r manylion a restrir uchod yn cyfeirio at y cyflogau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2009 ac ni chynhwyswyd y codiadau o ganlyniad i adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad. Codir y cyfraddau yn flynyddol yn unol â'r Mynegai Enillion Cyfartalog Cenedlaethol.

Mae manylion yr adroddiad i'w cael yn:

http://www.cynulliadcymru.org/memhome/mem-allow-pay-pensions/independentreviewpanel.htm

Caiff costau pensiwn a chyfraniadau yswiriant gwladol eu hychwanegu at y cyflogau.

Mae lwfansau Aelodau'r Cynulliad yn cynnwys y mathau a ganlyn o wariant, gydag amcangyfrif o'r cyllidebau blynyddol mewn cromfachau:

- Teithio a chynhaliaeth (£0.4m);
- Costau swyddfa – i dalu costau dodrefnu a chynnal swyddfa Aelodau yn yr ardal y maent yn ei chynrychioli (£0.9m);
- Costau ychwanegol – ad-dalu Aelodau am dreuliau angenrheidiol a gododd o aros dros nos mewn lle ar wahân i'w prif gartref er mwyn cyflawni eu dyletswyddau fel Aelod (£0.5m);
- Cyflogau staff cymorth – gall pob Aelod gyflogi hyd at 3 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn i gynorthwyo gyda gwaith gweinyddol, clerigol neu ysgrifenyddol neu i wneud gwaith ymchwil a gwaith achos. Caniateir lwfans i grwpiau pleidiau sydd â 3 Aelod neu fwy i'w cynorthwyo i wneud gwaith y Cynulliad (£6.1m).

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi'r **symiau a dalwyd mewn lwfansau i Aelodau'r Cynulliad** yn ystod y flwyddyn flaenorol.

# Dashfwrdd Perfformiad Allweddol: AWST 2009

## Cerrig milltir allweddol

| Carreg filltir | Dyddiad targed | Statws coch/ melyn/ gwyrdd | Sym-udiad |
|---|---|---|---|
| Strategaeth frandio - canllawiau yn mynd yn fyw (Amcan 1) | Mai 2009 | Melyn | ➔ |
| Cwblhau proses gyntaf deddfwriaeth Aelod Preifat (Amcan 2) | Haf 09 | Gwyrdd | ➔ |
| Gosod y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2010-11 (Amcan 3) | Medi 2009 | Gwyrdd | ➔ |
| Prosiect Ystafell Bwyllgora 4 (Amcanion 2 & 5) | Medi 2009 | Gwyrdd | ➔ |
| Derbyn achos busnes ar gyfer y prosiect rheoli parhad busnes (Amcan 5) | Haf 09 | Melyn | ➔ |
| U-Access (prosiect AD/TG) cyfnod 2:<br>• Cynllun rheoli perfformiad a datblygiad<br>• Cofnodi salwch ar-lein (Amcan 3) | <br>Medi 2009<br>Tach 2009 | Gwyrdd | ➔<br>➔ |
| i-change—cymeradwyo'r gyllideb atodol i ariannu'r camau nesaf (Amcan 5) | Hyd 2009 | Melyn | ➔ |
| Cofnodi lwfansau Aelodau ar-lein (y prosiect Folding Spaces) (Amcan 3) | Rhag 2009 | Gwyrdd | ➔ |
| Cwblhau'r prosiect meddalwedd deddfwriaeth, cyfnod 2 (Amcan 2) | I'w gadarnhau (nodyn briffio) | Melyn | ➔ |
| Y Mesur cyntaf a gynigir gan bwyllgor (y Mesur Comisiynydd Safonau) yn cael cymeradwyaeth Frenhinol (Amcan 2) | Rhag 2009 | Gwyrdd | ➔ |
| Pierhead - cwblhau cyfnod 2 (Amcan 1) | Chwe 2010 | Gwyrdd | |

## Dangosyddion perfformiad allweddol

| Dangosydd | Targed | Cyf-nod | Cyrh-aedd-iad | Cyfnod blaen-orol | Statws coch/ melyn/ gwyrdd |
|---|---|---|---|---|---|
| **BUSNES** | | | | | |
| Achosion lle nad yw busnes y pwyllgorau wedi digwydd yn unol â'r Rheolau Sefydlog (Amcanion 2 & 5) | 0 | Gor | 0 | 0 | Gwyrdd |
| Mae dangosyddion ar gyfer y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau yn cael eu datblygu (Amcanion 2 & 5) | Yn cael eu datblygu | | | | |
| % yr ymholiadau i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau a gwblhawyd o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno (Amcan 5) | 100% | Gor | 95% | 96% | Gwyrdd |
| Cwblhau'r Cofnod dwyieithog a phob cais am gyfieithu neu gyfieithu ar y pryd ar amser (Amcan 1) | 100% | Gor | I ddilyn | 97% | Gwyrdd |
| **GWEITHREDIADAU** | | | | | |
| TGCH: nifer yr ymweliadau â swyddfeydd etholaeth (Amcan 5) | 5 ymweliad | Gor | 4 | 7 | Gwyrdd |
| Talu cyflenwyr o fewn 10 niwrnod (Amcan 3) | 100% | Gor | 76% | 90% | Melyn |
| Talu ceisiadau Aelodau o fewn 10 niwrnod (Amcanion 3 & 5) | 100% | Gor | 100% | 99% | Gwyrdd |
| Rheoli perfformiad ariannol gwariant yn erbyn y gwariant proffiliedig i fod o fewn y goddefiadau (Amcan 3) | 2% | Gor | 9% | 8% | Melyn |
| Arbedion effeithlonrwydd ar ddiwedd y flwyddyn (Amcanion 3 & 5) | £250k | Y flwyddyn i Gor | £673k | £673k | Gwyrdd |
| Lleihau'r defnydd o ynni—nwy a thrydan (% y gostyngiad) (Amcan 4) | 10% erbyn Medi 09 | Y flwyddyn i Gor | I ddilyn | 12% | Gwyrdd |
| Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gollwyd gan bob cyflogai mewn blwyddyn (Amcanion 3 & 5) | 9 diwrnod | Y flwyddyn i Gor | 8.98 diwrnod | 9 diwrnod | Gwyrdd |
| Ymdrin â phob ymholiad rhyddid gwybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith (% y nifer y mae disgwyl eu hateb mewn mis) (Amcan 3) | 100% | Gor | 100% (2 cais) | 75% (8 cais) | Gwyrdd |
| Yr argymhellion archwiliad mewnol a gyflenwyd ar amser (% yn y mis cyfeirio) (Amcanion 3 & 5) | 100% | Gor | n/a (0 cais) | 100% | Gwyrdd |
| Sylw yn y wasg a gynhyrchwyd gan yr Uned Cysylltiadau Allanol sy'n gadarnhaol ac yn gywir (Amcan 1) | Yn cael ei ddatblygu | | | | |

## Mesurau bodlonrwydd

| | Sgôr ar gyfartaledd |
|---|---|
| **Aelodau'r Cynulliad[1]** | |
| Cymorth/gwasanaethau ar gyfer: | |
| Y Cyfarfod Llawn | 8.2 |
| Pwyllgorau | 8.0 |
| Gwasanaethau eraill | 7.7 |
| **Y cyhoedd[2]** | |
| Categorïau i gael eu cadarnhau | |

(1) Mae 31 o Aelodau wedi cael eu cynnwys yn yr arolwg erbyn hyn. Mae dadansoddiad llawn o'r canlyniadau ar gael.
(2) Mae'r mesurau yn cael eu hystyried.

## Dangosyddion ymgysylltu â'r cyhoedd

| | Gor 2009 | Meh 2009 | Sy-mud-iad |
|---|---|---|---|
| Ymweliadau â'r wefan | 32,888 | 33,682 | ➔ |
| Defnyddwyr senedd.tv [2] | n/a | n/a | n/a |
| Ymwelwyr â'r Senedd | 11,582 | 13,518 | ➔ |
| Ymwelwyr y Gwasanaeth Addysg (nifer yr ysgolion) | 21 | 59 | ➔ |
| Ymweliadau allgymorth (nifer yr ysgolion) | 10 | 33 | ➔ |
| Ymholiadau'r llinell wybodaeth | 363 | 381 | ➔ |

(1) Bydd cymhariaethau blwyddyn ar flwyddyn ar gael o fis Ebrill 2010 ymlaen
(2) Dulliau cofnodi i'w cyflwyno ym mis Medi 09.

## Risgiau Sylweddol

(gweler y cofrestri risg am fwy o fanylion)

| Risgiau i'w symud o Uchel i Critigol | Graddfa risg | Sym-udiad |
|---|---|---|
| Dim symudiadau i'w nodi | | |

**Goleuadau traffig:**
Coch = mae angen ymdrin â'r mater ar frys; Melyn = materion i'w hystyried; Gwyrdd = y targed wedi ei gyrraedd neu bron wedi ei gyrraedd (o fewn 5%) - dim materion i bryderu yn eu cylch

ALLWEDD: - yn dynodi sero, .. yn dynodi nad yw ar gael, n/a yn dynodi nad yw ar gael, n/r yn dynodi nad yw'n berthnasol neu nad oes cofnod ohono, r yn dynodi ei fod wedi cael ei ddiwygio, glas yn dynodi dangosydd neu darged newydd